



**SYNIADAU AR GYFER
YMWELIADAU
CYMDEITHASOL GRWPIAU
CORFFORAETHOL**

Mae Caerdydd yn ddinas gryno, hawdd ei cherdded - fyddwch chi ond 15 munud i ffwrdd o'r lle mae angen i chi fynd. Mae lleoliadau corfforaethol yn agos at westai ac yn agos at weithgareddau cymdeithasol y tu allan i'r gynhadledd. Gall ymwelwyr grŵp archwilio treftadaeth ddiddorol a diwylliant bywiog y brifddinas yn y ddinas neu yn y Bae. Neu mwynhewch yr ystod gyffrous o weithgareddau ac adloniant ynghyd â chymysgedd eclecticig o siopau, caffis, barau a bwytai.

Dyma **raglen tridiau** a fydd yn rhoi syniadau i drefnwyr grwpiau ar gyfer eu cynllun cymdeithasol pwrpasol y tu allan i'r gynhadledd yng Nghaerdydd.



Diwrnod 1

Dechreuwch drwy archwilio Canolfan Ddinesig drawiadol Caerdydd gyda'i hadeiladau trawiadol, ei llwybrau llydan a'i pharcdir. Mae Neuadd y Ddinas Caerdydd yn un o'r adeiladau Edwardaidd y gellir eu llogi fel lleoliad ynghyd ag Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, sy'n gartref i gasgliad hynod o baentiadau a cherfluniau Ewropeaidd ac sy'n cynnal arddangosfeydd arbennig. Daeth dwy chwaer gyfoethog o Gymru â'u casgliad celf mawr i'r oriel yng nghanol yr 20fed ganrif, a roddodd i Gaerdydd un o'r casgliadau mwyaf o baentiadau Argraffiadol y tu allan i Paris.

Ewch am dro byr i'r Stadiwm Principality enwog. Fe'i hadeiladwyd ym 1999 ar gyfer Cwpan Rygbi'r Byd, mae 74,500 o seddi yn y stadiwm a tho sy'n agor. Mae wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau chwaraeon rhyngwladol, digwyddiadau busnes a chyngherddau. Gellir trefnu teithiau arbennig y tu

ôl i'r llenni sy'n cynnwys yr ystafelloedd newid a sedd yn y Blwch Brenhinol.

Mae'r sîn fwyd yn ffynnu yma gyda chynhyrchwyr annibynnol, manwerthwyr, caffis, bwytai a siopau tecawê o safon yn y farchnad Fictoraidd lwyddiannus, yn yr Arcedau Fictoraidd ac Edwardaidd ac mewn corneli cudd ar draws y ddinas. Mae Taith Fwyd Caerdydd yn cyflwyno cynhyrchwyr a manwerthwyr, gan roi blas ar stori fwyd Caerdydd. Neu dysgwch fwy am hanes Caerdydd yn Amgueddfa Stori Caerdydd.

Mae Caerdydd yn llawn profiadau diwylliannol. Mae dewis gwych o theatrau, neuaddau cyngerdd a lleoliadau clos gydag amrywiaeth o berfformiadau byw bob dydd o'r wythnos. Neu os ydych chi'n chwilio am brofiad o adloniant traddodiadol Cymreig, cadwch olwg am Wleddoedd Castell Caerdydd yn yr Is-grofft hanesyddol.



Diwrnod 2

Dechreuwch eich diwrnod gyda thaith o Gastell Caerdydd. Caer Rufeinig oedd yma yn wreiddiol, ychwanegwyd amddiffynfeydd pellach yn y cyfnod Normanaidd. Tua diwedd y 19eg Ganrif, gwariodd 3ydd Ardalydd cyfoethog Bute ffortiwn ar waith adnewyddu mawr, gan drawsnewid tu mewn y Castell yn balas Gothig, ffug-Ganoloesol. Heddiw gellir llogi'r manau addurnedig a grëwyd gan y pensaer ecsentrig William Burges ar gyfer digwyddiadau corfforaethol. Mae'r parcdir helaeth o amgylch y Castell hefyd yn ased gwych yng nghanol y ddinas.

Cyfunwch ymweliad canol dinas â glannau Caerdydd. Ewch ar daith cwch 30 munud o dir y Castell i Fae Caerdydd.

Mae Bae Caerdydd yn cynnwys llyn dŵr croyw 200 hectar ar gyfer chwaraeon hwylio a dŵr a llawer o weithgareddau o rafftio dŵr gwyn i deithiau cerdded i archwilio natur. Ewch â chwch o Gei'r Fôr-forwyn ar daith leol neu efallai i Ynys Echni, ynys fechan oddi ar yr arfordir.

Cadwch olwg am dirnodau'r Bae fel Senedd Cymru, siambr drafod ecogyfeillgar Llywodraeth Cymru. Ewch i ganolfan wyddoniaeth Techniquet sydd

newydd ei hailddatblygu, neu ewch ar daith y tu ôl i'r llenni o amgylch Canolfan Mileniwm Cymru cyn mynd i berfformiad gyda'r nos. Ysbrydolwyd dyluniad y ganolfan ddiwylliannol hon gan dirwedd, iaith a diwylliant Cymru. Adeiladwyd llawer o'r gwaith gyda deunyddiau Cymreig ac mae'n cynnig llwyfan haeddiannol drawiadol ar gyfer Opera Cenedlaethol Cymru, theatr gerddorol, ballet, theatr a chomedi.

Ewch ar antur wfreiddiol yng nghanolfan Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd, cyfleuster antur cyffrous fel y mynnwch ei ddefnyddio yng nghanol y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol.

Mae dewis gwych o farau a bwytai ar lan y dŵr i giniawa neu ymlacio â diod. Rhowch gynnig ar westy hanesyddol y Gyfnewidfa am ginio neu de prynhawn - yr hen Gyfnewidfa Lo ydy hwn, lle cafodd y fargen lo gyntaf werth £1 miliwn yn y byd ei tharo pan oedd Caerdydd yn borthladd rhyngwladol ffyniannus. Neu beth am westy cyfoes 5* voco Dewi Sant sy'n edrych dros y dŵr

Mae sinema pum sgrin Everyman yng Nghei'r Fôr-forwyn, sy'n cynnwys seddau sofffa clyd a bwydlen sy'n cynnwys Spielburgers, pizzas wedi'u rhoio â llaw, hufen iâ syndi a choctels.



Diwrnod 3

Daith fer o Gaerdydd mae Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan. Ewch i ymweld â'r tiroedd a'r bythynnod, ffermdai, gweithdai gwledig, melin, capel a siop bentref sydd wedi eu hailgodi yno. Mae digon o opsiynau yma ar gyfer cinio - Bwyty'r Fro, Caffi Bardi ac Ystafelloedd Te Gwalia, ystafell de draddodiadol o'r 1930au, sy'n cynnig cinio ysgafn a the prynhawn.

Gyrrwch bellter byr i gefn gwlad ac fe welwch Gastell Hensol. Daw'r castell yn wreiddiol o'r 17eg ganrif, mae ystafelloedd i'w llogi ond hefyd mae distyllfa jin yn y seleri, lle caiff grwpiau fwynhau blasu a dysgu mwy am y broses ddistyllu. Gerllaw yn y parcdir helaeth, mae'r Vale Resort, sy'n cynnig nifer o brofiadau i grwpiau ar sail chwaraeon.

Tua 10 munud i ffwrdd mae Profiad y Bathdy Brenhinol lle gall grwpiau ddysgu am 1,100

mllynedd o hanes ac archwilio gwneud darnau arian a chasgliadau.

Ar ddiwedd y dydd ewch yn ôl i Gaerdydd. Rhowch gynnig ar un o'r toreth o farau a bwytai, sy'n aml yn cynnig manau preifat i grwpiau, er enghraifft yn The Botanist, lle mae bar to gwych a phrydau arbennig ar y fwydlen. Fel arall, mae gan Ivy Caerdydd fwydlen brasserie sydd ar gael drwy'r dydd, neu cewch fwyta'n dda ym mwyty'r Park House. Mae profiad bwyta arall ar lefel y to yng Ngwesty'r Indigo ac mae'r tu mewn wedi ei ddylunio gan dylunwyr celfyddydol Cymreig. Gall grwpiau hefyd rannu profiad fel dosbarth gwneud coctels neu daith bragdy cwrw crefft neu gellir cynnwys profiad bwyd mewn helfa drysor drwy'r ddinas.